Iaith Arholiad

Yr un geiriau a welir mewn sawl cwestiwn arholiad, felly mae'n bwysig eich bod yn eu deall er mwyn ateb yn gywir. Sylwch fod y rhan fwyaf o'r geiriau isod yn gorffen efo – WCH. Berfau 'gorchmynnol' ydyn nhw yn dweud wrthych beth i'w wneud.

A

Angenrheidiol – mae angen i chi 'sgwennu'r ffeithiau pwysicaf; cynnwys y pethau o bwys yn unig. (essential)

Amcangyfrif – cyfrif yn fras, y cyfrif agosaf, asesu'n fras. (estimate)

Amcangyfrifwch – mae angen i chi gyfrif yn fras, rhowch yr ateb i'r rhif agosaf. (estimate)

Amlinellwch – mae angen i chi ysgrifennu am y prif bwyntiau; does dim angen rhoi pob ffaith. (outline)

Anfantais – y pethau hynny sy'n gwneud drwg/niwed/sy'n golled. (disadvantage)

Aseswch – mae angen i chi bwyso a mesur - ceisiwch weld y da a'r drwg wrth ateb. (assess)

Astudiwch - mae angen i chi edrych yn fanwl ar ddarn ysgrifenedig, lun neu fap cyn 'sgwennu. (study)

Atgoffir – dod o 'atgoffa' sef y pethau i chi eu cofio. (remind)

Awgrymwch – mae angen i chi ddweud yr hyn rydych chi yn ei feddwl ydy'r ateb o gofio yr hyn a ddysgoch. (suggest)

B

Brasamcanwch – mae angen i chi roi'r syniad cyffredinol neu'r rhif agosaf. Does dim angen bod yn fanwl gywir, ond rhowch yr ateb sy'n weddol agos ati. (estimate)

Brasluniwch – mae angen i chi wneud darlun sy'n dangos y prif nodweddion heb fanylu'n ormodol; rhowch amlinelliad. (sketch)

C

Ceir – dod o 'cael' – yn cael.

Crynhowch – mae angen i chi ddod â'r prif bwyntiau at ei gilydd a'u hysgrifennu hw'n fyr ac eglur. (summarize)

Cwblhewch y frawddeg – gorffen y frawddeg. (complete the sentence)

Cwblhewch – mae angen i chi orffen y frawddeg, y darn, y llun… (complete)

Cyfeiriwch – mae angen i chi ddefnyddio ffeithiau o ddarn darllen neu lun neu fap wrth ateb. (refer to)

Cyferbynnwch – mae angen i chi ddweud yn glir beth ydy'r gwahaniaethau. (Yr un ystyr â 'gwrthgyferbynnwch'.) (contrast)

Cyfrifwch – mae angen i chi gael yr ateb i broblem (mewn mathemateg fel arfer). (calculate)

Cynghorir – dod o 'cynghori' - rhoi arweiniad, dangos y ffordd. (advise)

Cymharwch - mae angen i chi sgwennu am y pethau sy'n debyg ac annhebyg. (compare)

Cymysgwyd – dod o 'cymysgu' – wedi drysu neu allan o drefn. (jumbled)

Cynhyrchwch – mae angen i chi wneud neu greu; llunio rhywbeth. (produce)

Cysylltir – dod o 'cysylltu' - uno, dod at ei gilydd. (join/link)

Cysylltwch – mae angen i chi ddod â phethau/ffeithiau at ei gilydd. (link)

CH

Chwaraeir – dod o 'chwarae' – rhywbeth sy'n cael ei chwarae. (play)

D

Dadansoddi – mae angen i chi ddangos y prif syniadau a dangos sut maen nhw'n cysylltu efo'i gilydd a dangos eu bod yn bwysig. (analyse)

Dangosir – dod o 'dangos' – yn cael ei ddangos /eu dangos. (shown)

Dangoswch – mae angen i chi ddangos; egluro yn eich ateb. (show)

Darganfyddwch – mae angen i chi ddod o hyd i'r ateb. (find)

Datblygwch – mae angen i chi ddweud mwy / ehangu mwy yn eich ateb. (develop)

Datryswch – mae angen i chi ddod o hyd i ateb i broblem. (solve)

Defnyddir – dod o 'defnyddio' yn cael ei /eu defnyddio. (used)

Defnyddiwch – mae angen i chi ddefnyddio rhyw wybodaeth. (use)

Dehonglwch – mae angen i chi egluro yn eich geiriau eich hun gan roi enghreifftiau os oes angen. (interpret)

Diffiniwch – mae angen i chi roi'r ystyr a rhoi enghreifftiau os gallwch. (define)

Disgrifiwch – mae angen i chi roi llun mewn geiriau. (describe)

Dychmygwch – mae angen i chi gymryd arnoch; greu yn eich meddwl. (imagine)

Dyfynnwch – mae angen i chi ddefnyddio geiriau pobl eraill – gall fod yn ddarn o farddoniaeth neu ryddiaith. (quote)

Dylunio – cynllunio, llunio, paratoi patrwm. (design)

Dyluniwch – mae angen i chi gynllunio, llunio, paratoi patrwm. (design)

E

Eglurwch – mae angen i chi wneud rhywbeth yn hawdd i'w ddeall ac yn glir (explain)

Ehangwch – mae angen i chi wneud rhywbeth yn fwy neu egluro rhywbeth yn fanylach. (expand)

Esboniwch – mae angen i chi egluro rhywbeth yn eich geiriau eich hun. (explain)

FF

Ffactoriwch – e.e. (a^2 + 3a + 2) = (a + 1) 9a + 2) (factorise)

Ffurfir – dod o 'ffurfio – gwneud, llunio.

G

Gellir – dod o 'gallu' - yn gallu.

Gosodwyd - dod o 'gosod' – wedi'i (g)osod.

Gwanahiaethwch – mae angen i chi ddangos y gwahaniaeth. (differentiate)

Gwerthuswch – mae angen i chi ddweud eich barn am bwnc gan roi'r pwyntiau da a drwg. (evaluate)

Gwiriwch – mae angen gwneud yn siŵr bod eich ateb yn gywir. (check)

L

Labelwch – mae angen i chi roi geiriau ar eich gwaith i nodi beth ydy'r gwahanol rannau/ elfennau. (label)

Labelwyd – dod o *'label'* – wedi rhoi label.

LL

Lluniadwch – mae angen i chi dynnu llun efo inc, sialc neu bensil. (draw)

Lluniwch – mae angen i chi wneud neu greu rhywbeth. (construct, fashion, draw)

M

Mantais – rhywbeth sydd o les, o gymorth neu o fudd. (advantage)

Mynegwch – mae angen i chi ddweud / ysgrifennu rhywbeth mewn ffordd wahanol. (express)

Manylwch – mae angen i chi ysgrifennu'n fanwl. (detail, elaborate)

N

Nodwch – mae angen i chi ddweud y prif bwyntiau / ffeithiau yn syml a chlir. (note)

P

Perfformir – dod o 'perfformio' – cael ei b(ph)erfformio.

Plannwyd – dod o 'plannu' – wedi cael i b(ph)lannu.

Profwyd – dod o 'profi' – wedi ei ddangos i fod yn wir.

RH

Rhestrwch – mae angen i chi wneud rhestr o bethau. (list)

Rhifwch – mae angen i chi roi rhifau. (number)

Rhoddir – dod o 'rhoi' – yn rhoi.

Rhoddwyd – dod o 'rhoi' – wedi rhoi.

S

Symleiddiwch – mae angen i chi wneud rhywbeth yn fwy syml. (simplify)

T

Talgrynnwch – e.e. mae £3.99 yn ddigon agos i £4 (round off)

Tanlinellwch – mae angen i chi roi llinell o dan lun neu air neu frawddeg. (underline)

Trafodwch – mae angen i chi drafod rhywbeth yn fanwl a gweld 2 ochr y ddadl / y pwynt lle bo hynny'n bosibl. (discuss)

Tystiolaeth – ffaith / barn/ dyfyniad sy'n mynd i gefnogi eich pwynt. (evidence)

Y

Ychwanegol – mwy. (additional)

Ychwanegwch – mae angen i chi ddweud mwy neu mae angen i chi roi rhywbeth ychwanegol ar lun. (add)

Y frawddeg ganlynol – y frawddeg nesaf. (the following sentence)

Ystyriwch – mae angen i chi feddwl dros rywbeth cyn ateb y cwestiwn. (consider)

Ychwanegwch eich termau eich hun i'w cofio:

Nodiadau: